***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol*

### 66 Cais am ddarpariaethau caffael yn orfodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

(2) Mae Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56) (y weithdrefn prynu gorfodol) yn gymwys i gaffael tir yn orfodol o dan y gorchymyn—

- (a) fel y mae'n gymwys i bryniant gorfodol y mae Rhan 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) yn gymwys iddo, a
- (b) fel pe bai'r gorchymyn yn orchymyn prynu gorfodol o dan y Ddeddf honno.

(3) Mae Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965, fel y'i cymhwysir gan is-adran (2), yn cael effaith gan hepgor y darpariaethau a ganlyn—

- (a) adran 4 (terfyn amser i arfer pwerau prynu gorfodol);
- (b) adran 10 (digolledu am effaith niweidiol).

(4) Mae is-adrannau (2) a (3) yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir gan y gorchymyn cydsyniad seilwaith.